# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 20 Mawrth 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Richard Davies, Colin Hughes, Dewi Owens, Arwel Roberts (Is-Gadeirydd), Gareth Sandilands a/ac David Simmons (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM). Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Strategol (GG), Rheolwr Prisio ac Ystadau (DM), Rheolwr Eiddo (DL), Cydlynydd Archwilio (RhE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE)

Cynghorydd  Raymond Bartley, Cynghorydd  Merfyn Parry a'r Cynghorydd  Huw Williams

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau yn bresennol yn y Pwyllgor ar gais y Pwyllgor i drafod eitem fusnes 7.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd  Bill Cowie, Cynghorydd  Meirick Lloyd Davies, Cynghorydd  Geraint Lloyd-Williams, Cynghorydd  Peter Owen ac Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion a Phlant (Cynghorydd  Bobby Feeley)

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Bu i'r Cynghorydd David Simmons a Dewi Owens ddatgan cysylltiad personol ag eitem 7 ar yr agenda gan eu bod yn aelodau o'r Bwrdd Ystadau Amaethyddol. Hysbyswyd nad oedd gwrthdaro buddiannau gan nad oedd yr eitem hon yn gysylltiedig â gwneud penderfyniad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Iau, 20 Chwefror, 2014.

Materion yn codi:-

**Tudalennau 6 - 8, 'Moderneiddio Addysg – Adroddiad Cynnydd':**

- Nid yw'r Cyngor wedi derbyn copi Cymraeg o adroddiad Adolygiad Gateway.
- Aelodau o Fwrdd Moderneiddio Addysg: disgwyl cadarnhad i'r cais i gynrychiolwyr archwilio allu mynychu/gwasanaethu ar y Bwrdd
- Ysgol Plas Brondyffryn: disgwyl canlyniad ymholiadau ynghylch gosod y piler yn y neuadd addysg gorfforol.

**Tudalen 10 - 'Adborth gan Gynrychiolwyr y Pwyllgor:** cyfeiriad at adroddiad Ombwdsmon ar ddileu dyledion Treth y Cyngor. Holwyd swyddogion a dywedwyd nad oedd adroddiad penodol ar y pwnc uchod ond roedd y penderfyniad canlynol wedi ei wneud y llynedd:

"**Cadarnhad – Mawrth 2013**
Cwynodd Mr J am y ffordd yr oedd Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") wedi rheoli cyfrif treth y cyngor ar gyfer cartref ei ddiweddar fam. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno gŵys am beidio â thalu treth y cyngor, i Ysgutorion ei hystâd. Roedd Mr J yn gyd Ysgutor gyda chwmni Cyfreithwyr lleol. Talodd Mr J yr arian a oedd yn ddyledus i'r Cyngor o'i gyfrif personol.

Yn ddiweddarach daeth Mr yn ymwybodol fod preswylydd cofrestredig newydd yr eiddo yn atebol am y taliadau. Ysgrifennodd at y Cyngor yn gofyn am ad-daliad o'r arian yr oedd wedi ei dalu. Ni chafodd cais Mr J ei gydnabod a bu'n rhaid iddo gysylltu â'r Cyngor i gael ymateb. Lleisiodd Mr J bryderon ychwanegol ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan y Cyngor yn dilyn ei gais am ad-daliad, gan eu bod wedi gofyn am gydsyniad ei gyd Ysgutor cyn rhoi'r ad-daliad yn ogystal â'r ffordd y teimlai ei fod wedi cael ei drin gan staff y Cyngor. Cafodd Mr J ad-daliad gan y Cyngor tua 4 mis yn ddiweddarach.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd ar gael, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y ffordd yr oedd y Cyngor wedi rheoli'r cyfrif treth y cyngor ar gyfer yr eiddo yn rhesymol ar y cyfan. Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon nad oedd gwasanaeth y Cyngor yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer delio â chais ysgrifenedig Mr J am ad-daliad. Hefyd teimlai'r Ombwdsmon y dylai'r Cyngor, o leiaf, fod wedi dweud wrth Mr J am y camau yr oedd yn rhaid eu cymryd i gael cydsyniad ei gyd Ysgutor cyn y gallai roi'r ad-daliad iddo. Cytunodd y Cyngor ag argymhellion yr Ombwdsmon i ymddiheuro i Mr J a thalu £100 iddo am y methiannau a nodwyd a'r amser a'r drafferth a gymerwyd i ddelio â'r gŵyn. Cyfeirnod achos 201201315"

Adroddwyd yr uchod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o Adroddiad Blynyddol".

***Penderfynwyd –*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**5 DARPARIAETH GWASANAETH YN DILYN CAU ASIANTAETHAU CYMUNEDOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd B. Feeley ei hymddiheuriadau am fethu â mynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes ac atgoffodd y Pwyllgor o'r gweithdai ar y gyllideb y llynedd lle cynigiwyd arbed £25,000 y flwyddyn ar gostau llety'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol. Manylodd ar y camau a oedd yn cael eu cymryd i sicrhau dull arall o ddarparu gwasanaethau ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol - e.e. gan grwpiau'r trydydd sector.

Lleisiwyd y pryderon canlynol gan y Pwyllgor:

- Mae'r adeiladau presennol yng ngorsaf reilffordd y Rhyl mewn lleoliad canolog ac yn hawdd i unigolion gyrraedd atynt gyda chludiant cyhoeddus. Efallai nad yw mannau eraill fel Canolfan Foryd mor hygyrch.

- Yr effaith bosibl ar swyddi unwaith y bydd y llety wedi dod yn wag a'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn cau.

- I ba raddau yr oedd ymgynghoriad ar gau'r adeiladau a'r Asiantaeth wedi ei gynnal?

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Cymunedol sicrwydd i'r Pwyllgor fod adeiladau Canolfan Foryd o fewn 500 llath i'r orsaf ar Princes Street.

Eglurwyd bod 5 aelod o staff wedi bod yn gweithio i'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol tan 5 mlynedd yn ôl, a bod y nifer wedi lleihau'n raddol i 2 weithiwr ac y byddai'r Asiantaeth wedi cau pe na bai wedi derbyn arian gan brosiect Taith i Waith. Rhagwelid y byddai'r 2 aelod o staff a oedd yn gweithio ar hyn o bryd yn yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn cael eu hadleoli i rôl cymorth cymunedol o fewn y Gwasanaeth.

Roedd aelodau eraill o staff wedi eu cyflogi gan y prosiect Taith i Waith. Roeddent wedi eu cyflogi ar gontractau tymor byr gan wybod yn llawn bod eu swyddi yn y dyfodol yn dibynnu ar sicrhau grant pellach.

Roedd y cam o gau'r Asiantaeth wedi ei drafod â'r holl unigolion a oedd yn defnyddio'r ganolfan. Cydnabuwyd nad oedd yr un lefel o drafodaeth wedi digwydd gyda chymunedau ehangach ond roedd Aelodau Etholedig o Brestatyn a'r Rhyl wedi cymryd rhan mewn gweithdy a oedd yn rhoi sylw i'r strategaeth ymadael.

Roedd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ar y newidiadau i'r gwasanaeth ac mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y gweill. Byddai'r gwasanaeth yn parhau am y 3 mis nesaf tra bod trafodaethau gyda grwpiau trydydd parti'n parhau i geisio chwilio am ddarpariaeth arall.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y ffigyrau a oedd yn dangos y defnydd o’r ganolfan yn ystod cyfnod o 3 mis a gofynnodd am yr ystadegau am y 12 mis blaenorol. Hefyd gofynnwyd am y ffigyrau i ddangos dadansoddiad o faint o bobl y tu allan i’r Rhyl a oedd yn defnyddio’r ganolfan.

**Penderfynwyd: -**
(a) *yn amodol ar y sylwadau a wnaed ac ar ddarparu’r wybodaeth angenrheidiol, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r camau sy’n cael eu cymryd i sicrhau y deuir o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu’r gwahanol wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol ar sail gostyngiad o £25,000 yn eu cyllideb; a*
(b) *bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei baratoi i’r Pwyllgor yn hydref 2014 yn manylu ar y cynnydd a wnaed i sicrhau safle a threfniadau darparu eraill ar gyfer darparu gwasanaethau’r Asiantaeth*

## 6 TROSOLWG O YMWELIADAU DARPARWYR MEWNOL 2013/14

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes adroddiad ar gynnydd ymweliadau darparwyr mewnol a’r adborth a dderbyniwyd o ganlyniad i’r ymweliadau. Eglurodd fod aelodau etholedig wedi ymweld â sefydliadau gofal cymdeithasol y Sir ar sail rota ac wedi rhoi adborth i hwyluso’r gwaith o lunio cynllun gweithredu er mwyn rhoi sylw i ddiffygion neu feysydd pryder.

Ar y cyfan roedd yr adborth yn gadarnhaol a cheisiodd y rheolwyr weithredu’r gwelliannau a argymhellwyd yn gyflym, yn arbennig y rhai heb oblygiadau cyllidebol.

Ar y cyfan, dywedwyd bod safonau gofal o ansawdd da iawn a bod unrhyw bryderon a godwyd yn tueddu i ymwneud â materion cynnal adeiladau. Byddai angen trafod unrhyw waith o bwys oedd angen ei wneud gyda’r Adran Gyllid.

Canmolodd y Pwyllgor y gofal a’r gwasanaethau a ddarperid gan yr Awdurdod yn y sefydliadau hyn. Cydnabuwyd bod darparu gofal cymdeithasol preswyl yn gostus ac nad oedd rhai awdurdodau lleol bellach yn darparu gwasanaethau o’r fath. Yn y dyfodol agos mae’n bosibl y bydd yn rhaid i Sir Ddinbych ystyried a all barhau i ddarparu sefydliadau darparu gofal ar yr un lefel. Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad arolwg o gyflwr sefydliadau darparu gofal yr Awdurdod er mwyn pwyso a mesur pa rai a oedd yn addas i’r pwrpas.

Cododd Pennaeth Archwilio Mewnol y mater nad oedd rhai sefydliadau’n cadw’n ddigon caeth at bolisïau - yn arbennig o ran arwyddo wrth gyrraedd, ymarferion tân a diogelwch - materion sy’n gwella yn dilyn yr ymyrraeth hon.

Hefyd awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid edrych ar werth am arian y gwasanaethau mewnol. Nodwyd bod darparu cartrefi preswyl a ddefnyddir gan 70/80 o unigolion yn costio tua £5 million. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr nad oedd gan Awdurdodau Lleol eraill y math hwn o ddarpariaeth gan ei fod yn ddewisol yn hytrach na statudol a chwestiynodd a oedd yn fforddiadwy. Yn ei farn ef roedd y rhain yn faterion “o bwys” yr oedd angen edrych arnynt ac awgrymodd fod y

Pwyllgor yn dechrau trafod ffyrdd eraill o gynnal gweithgareddau mewnol presennol.

Awgrymwyd y gellid cymharu â'r sector preifat o ran cost y pen ar gyfer darparu gwasanaeth o'r fath. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd fod defnyddio grwpiau tasg a gorffen wedi ei drafod yn y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio diweddar ac awgrymodd y byddai hwn yn bwnc delfrydol i grŵp tasg a gorffen. Cytunodd i sôn am y cynnig yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio.

***Penderfynwyd:*** - *nodi'r wybodaeth a ddarparwyd am yr Ymweliadau Darparwyr Mewnol a bod Grŵp Tasg a Gorffen Archwilio yn cael ei sefydlu gyda golwg ar edrych ar opsiynau o ran gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn y Sir.*

## 7 YSTÂD AMAETHYDDOL

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, tra ystyrir yr eitemau canlynol ar y rhaglen, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y diffinnir hi ym Mharagraff 12, 13 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### RHAN II

Rhoddodd Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau drosolwg o'r adroddiad cyfrinachol a ddosbarthwyd yn flaenorol. Pwysleisiodd ei fod yn bwysig gwahaniaethu rhwng y ddau fath o gytundeb tenantiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae tenantiaethau o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ar gyfer y tenantiaid lle mae cyfrifoldebau cynnal dan ofal yr Awdurdod. Maent yn cael eu hystyried fel tenantiaethau oes; pe bai'r tenant yn rhoi'r gorau i ffermio byddai'r Awdurdod yn atebol am ddarparu llety arall. Mae tenantiaethau a ffurfir o dan Ddeddf Tenantiaethau Fferm 1995 yn cynnig mwy o hyblygrwydd i gysylltu â thenantiaid ac ar y tenant yn hytrach na'r landlord y mae'r baich o drwsio a chynnal.

Mae Gwasanaethau Eiddo wrthi'n ceisio rhyddhau ffermydd sydd i'w gwaredu trwy symud tenantiaid o dan delerau Deddf Tenantiaethau Fferm 1986 i ffermydd eraill lle mae angen llai o waith cynnal / baich ariannol llai. Fodd bynnag dim ond tîm bach sy'n dibynnu ar incwm ffioedd a galwyd arnynt i ddelio â Blaenoriaethau Corfforaethol eraill - e.e. prynu gorfodol yng Ngorllewin y Rhyl ac arolygon o gyflwr safleoedd corfforaeth hyd braich - sy'n gadael dim ond un syrfëwr 0.5 cyfwerth ag amser llawn i weithio ar y materion sydd wedi cronni'n ymwneud ag ystadau amaethyddol.

Lleisiodd y Cynghorydd Hughes bryderon nad yw tai ar ffermydd yn dod o dan ofyniad Safon Ansawdd Tai Cymru, a'u bod efallai'n dadfeilio, yn orlawn ac yn anaddas i deuluoedd. Awgrymodd y Cynghorydd Hughes y dylid defnyddio derbyniadau cyfalaf yn sgil gwaredu ystadau amaethyddol ar gyfer adnewyddu tai ffermydd.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod polisi blaenorol o neilltuo derbyniadau cyfalaf ond nad oedd yn sicrhau'r lefel o gronfeydd oedd ei hangen. Mae'r Awdurdod wedi gorfod canolbwyntio ar agweddau iechyd a diogelwch ar ystadau yn hytrach nag adnewyddu.

Cadarnhaodd David Mathews, y Rheolwr Prisio ac Ystadau fod angen cymaint o waith ar rai adeiladau fferm fel y byddai'n fwy cost effeithiol codi rhai newydd yn hytrach na'u trwsio. Yr ateb gorau ar gyfer ffermdai y mae angen gwneud gwaith arnynt, fyddai eu gwaredu. Ystyriai y gallai'r Awdurdod ddal ei afael ar ystâd amaethyddol gweddol fawr ond roedd angen gwneud newidiadau sylweddol.

Cwestiynodd y Cynghorydd Roberts y ffaith nad oedd Syrfëwr proffesiynol wedi ei gymhwyso mewn Arfer Gwledig o fewn y Cyngor a'r risg oedd ynghlwm â hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Prisio ac Ystadau eu bod yn cael eu cyflogi fel ymgynghorwyr pan fo arian ar gael a phan fo angen - er enghraifft ar gyfer adolygu rhenti.

Gofynnodd y Cynghorydd Roberts am eglurhad ynglŷn â defnyddio adnoddau Cyfreithiol. Cadarnhaodd y Rheolwr Prisio ac Ystadau eu bod fel arfer yn ymgynghori â'r gweithredwyr cyfreithiol mewnol, ond mae Deddf Tenantiaethau Fferm 1995 hefyd yn darparu ar gyfer priswyr / syrfewyr i lunio'r tenantiaethau. Mae'r Rheolwr Prisio ac Ystadau wedi bod yn ymgymryd â'r rôl hon gan fod ganddo flynyddoedd lawer o brofiad ac mae'n deall yr iaith a ddefnyddir.

Yn dilyn cafwyd trafodaeth ynglŷn â sefyllfa bresennol ffermydd y Sir yn cynnwys les tenantiaid, defnydd, rhenti ac opsiynau eraill. Gofynnodd Aelodau a oedd digon o bwyslais ar sicrhau derbyniadau cyfalaf trwy waredu eiddo amaethyddol? Os nad oedd gwaredu'n opsiwn pam fod incwm rhenti yn llawer llai na'r disgwyl yn y sector preifat?

Roedd Dave Lorey, y Rheolwr Eiddo yn cyfaddef bod angen i'r strategaeth ar gyfer ystadau amaethyddol gael ei hadolygu yn ogystal â chylch gorchwyl y Bwrdd Ystadau Amaethyddol.

***Penderfynwyd: -***
*(a) galw cyfarfod ar frys o'r Gweithgor Ystâd Amaethyddol gyda golwg ar lunio gweledigaeth hirdymor glir ar gyfer Ystâd Amaethyddol y Cyngor a datblygu strategaeth gadarn i gyflawni'r weledigaeth. Dylai'r Gweithgor adolygu ei Gylch Gorchwyl, cyfarfod yn rheolaidd a chynnal arolwg o gyflwr yr holl ddaliadau er mwyn cyflawni'r weledigaeth; a*
*(b) chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2014 yn amlinellu'r cynnydd hyd yma o ran datblygu'r pwyntiau uchod.*

## 8 RHAGLEN GWAITH ARCHWILIO

Aeth y cyfarfod yn ei flaen fel sesiwn agored i drafod gweddill y busnes.

**RHAN I**

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn diweddaru materion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor ffurf drafft ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol ar gyfer y cyfarfodydd canlynol:-

a) Dylai'r adroddiad gwybodaeth ar gyflwr ysgolion y Sir fod ar gael yng nghyfarfod fis Mai o'r Pwyllgor.
b) Dylid cynnwys Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14 ar y rhaglen waith ar gyfer rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf.
c) Yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion yr Ystâd Amaethyddol i'w cyflwyno yn y cyfarfod ar 12 Mehefin.
d) Bydd Darparu Teledu Cylch Caeedig (TCC) a Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau yn cael ei ddwyn ymlaen i agenda 17 Gorffennaf.

***Penderfynwyd** – yn amodol ar y newidiadau uchod, ac ar gytuno arnynt, bod y Rhaglen Waith fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorydd D. Owens wrth y Pwyllgor ei fod ef a'r Cynghorydd P.W. Owen wedi ymweld yn ddiweddar â'r Adran Refeniw a Budd-daliadau yn y Rhyl. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod problemau enfawr yn cael eu hachosi gan y taliad Credyd Cynhwysol newydd sy'n cael ei gyflwyno.

Roeddent hefyd wedi ymweld â staff yn Theatr Pafiliwn y Rhyl ac wedi cael argraff dda gan yr ethos gwaith tîm a amlygwyd gan y staff. Awgrymodd y dylid tynnu sylw at y tîm fel enghraifft dda i adrannau eraill. Cynigiodd y Cynghorydd A. Roberts eu bod yn anfon llythyr o gydnabyddiaeth at y staff yn y Theatr ac yn yr Adran Refeniw a Budd-daliadau yn cydnabod eu hymrwymiad.

Dywedodd y Cynghorydd A Roberts ei fod wedi bod yng nghyfarfodydd y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn ddiweddar, lle edrychwyd yn fanwl ar berfformiad dwy ysgol.

Diweddarodd y Cynghorydd R. Davies y Pwyllgor ynglŷn â'r cynlluniau i gladio piler yng nghanol yr ystafell fwyta/neuadd chwaraeon yn Ysgol Plas Brondyffryn (YPBD)

i leihau’r perygl o gael anafiadau wrth daro i mewn iddo. Hefyd tynnodd sylw at y mater fod plant o YPBD yn gorfod teithio i’r Rhyl i gael sesiynau nofio. Gofynnodd am esboniad ynghylch a yw’r pwll yng Nghanolfan Hamdden Dinbych ar gyfer defnydd Ysgol Uwchradd Dinbych yn unig.

**Penderfynwyd** – *derbyn a nodi’r adroddiadau*.